Cofia'r newynog, nefol Dad

Caneuon Ffydd: Rhif 816

Cofia'r newynog, nefol Dad,
filiynau llesg a thrist eu stad
sy'n llusgo byw yng nghysgod bedd,
ac angau'n rhythu yn eu gwedd.

Rho ynom dy dosturi di,
i weld mai brodyr oll ŷm ni:
y du a'r gwyn, y llwm a'r llawn,
un gwaed, un teulu drwy dy ddawn.

O gwared ni rhag in osgoi
y sawl ni ŵyr at bwy i droi;
gwna ni'n Samariaid o un fryd,
i helpu'r gwael yn hael o hyd.

Dysg inni'r ffordd i weini'n llon
er lleddfu angen byd o'r bron,
rhoi gobaith gwir i'r gwan a'r prudd,
ac archwaeth dwfn at faeth y ffydd.

Holl angen dyn, tydi a'i gŵyr,
d'Efengyl a'i diwalla'n llwyr;
nid digon popeth hebot ti:
bara ein bywyd, cynnal ni.

TUDOR DAVIES

MYFYRDOD

Trueni mawr ein byd yw bod gan rai fwy na digon tra bod eraill yn gorfod 'llusgo byw yng nghysgod bedd', fel y dywed Tudor Davies. Ar bwy mae'r bai bod sefyllfa fel hyn yn bodoli? Ar Dduw ynteu ar ddyn? Po fwyaf y meddyliwn am ddioddefaint ein byd, mwyaf fyth y cyfrifoldeb a deimlwn ein hunain amdano. Allwn ni ddim ateb y cwestiynau i gyd, ond fe wyddom fod a wnelo ni ein hunain rywbeth â'r ateb.

Cawn hanes Iesu yn yr efengylau yn dangos tosturi

eithriadol tuag at lawer o anffodusion yn ystod ei weinidogaeth ar y ddaear. Ar un o'r achlysuron hynny, ym Marc 1:40–45, fe welwn Iesu yn estyn ei law mewn tosturi tuag at y dyn gwahanglwyfus oedd yn gofyn iddo am iachâd. Mae'n ei ddangos ei hun yn barod i wneud rhywbeth am y sefyllfa, ac yn barod hefyd i estyn ei dosturi wrth iddo estyn ei law i gyffwrdd â'r person ysgymun hwn. Gofyn am dosturi tebyg i dosturi Iesu mae Tudor Davies. Tosturi i weld na allwn ni basio heibio i bobl heb falio, ac na allwn ni ychwaith beidio â gwrando ar y gri a ddaw atom trwy ddarluniau ein cyfryngau a'n gwasg: lluniau'r 'miliynau llesg a thrist eu stad'.

Un o broblemau mawr ein dyddiau ni yw difrawder, neu'r hyn mae'r cyfryngau'n ei alw'n 'compassion fatigue'. Rydym yn blino ar weld yr un darluniau ar y teledu o blant â boliau chwyddedig a mamau hesb yn darfod o flaen ein llygaid. Y gwir amdani yw nad ydy hi'n cymryd yn hir inni flino, ac nad peth newydd o gwbl ydy'r difrawder hwn. Cyfansoddodd Iesu ddameg yn unswydd er mwyn dangos ar y pryd i un o athrawon y gyfraith, ac i ninnau hefyd, ein bod i falio am eraill, sef dameg y Samariad Trugarog (Luc 10:25–37). Ynddi cawn weld 'pwy yw fy nghymydog' a'n bod i'w garu fel ni'n hunain. Y Samariad ydy'r cymydog mwyaf annhebygol yn yr achos hwn. Dydy hi ddim ots ganddo fod yna rai eraill wedi pasio heibio i'r dyn oedd yn gorwedd yn ei waed ei hun ar fin y ffordd o'i flaen. Mae'n dod oddi ar ei asyn ac yn mynd allan o'i ffordd i'w ymgeleddu.

Bu'r ddameg hon yn fodd i bobl ar hyd yr oesoedd sylweddoli eu cyfrifoldeb tuag at eu cyd-ddyn. 'Gwna ni'n Samariaid o un fryd', ydy gweddi ein hemynydd.

Efallai'n wir ei bod yn anghyfleus yn aml inni dosturio tuag at y rheiny sydd mewn angen, ond gallwn ddweud dau beth am garedigrwydd brawdol fel hyn. Yn gyntaf, na fyddwn ni byth yn edifar o'i ddangos a'i wneud; ac yn ail, y bydd yn byw yn y cof pan mae pethau eraill wedi hen fynd yn angof.

GWEDDI

Nefol Dad, gwyddom dy fod yn cofio ac yn ymwybodol o holl anghenion dynoliaeth. Gwna ninnau'n ymwybodol hefyd o'n cyfrifoldeb tuag at gyd-ddyn sydd yn gymydog inni. Dyro dosturi Iesu ynom a'i nerth i ni yn ôl y dydd 'i helpu'r gwael yn hael o hyd'. Yn enw Iesu. Amen.